OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 1101

# Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Cymraeg) 2000

**Enwi, cychwyn, dehongli a chwmpas**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Cymraeg) 2000 ac, yn ddarostyngedig i baragraff (2) isod, daw i rym ar 1 Awst 2000.

(2) Bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn i'r graddau mae a wnelont â'r pedwerydd cyfnod allweddol yn dod i rym—

(a) ar 1 Awst 2001 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn gyntaf y cyfnod allweddol hwnnw: a

(b) ar 1 Awst 2002 ar gyfer pob disgybl arall yn y cyfnod allweddol hwnnw.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "yr Awdurdod" yw Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru(**1**) ("*the Authority*");

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("*the National Assembly*");

ystyr "y Ddogfen" yw'r ddogfen a gyhoeddir gan yr Awdurdod yn 2000 o dan y teitl "Cymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol"(**2**) ("*the Document*"); a

dehonglir cyfeiriadau at gyfnodau allweddol yn unol â'r diffiniad o "key stages" yn adran 355(1) o Ddeddf Addysg 1996

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i ysgolion yng Nghymru'n unig.

(**1**) Sefydlwyd Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru gan adran 14(1)(b) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p.40), parhaodd mewn bodolaeth yn rhinwedd adran 360 o Ddeddf Addysg 1996 a rhoddwyd ei enw cyfredol iddo gan adran 27(1) o Ddeddf Addysg 1997.

(**2**) ISBN 07504 24036.